# Blwyddyn Gwirfoddoli Ewrop



**Roedd 2011 yn Flwyddyn Gwirfoddoli Ewrop.**
**Bu Canolfannau Gwirfoddoli a mudiadau gwirfoddol, gan gynnwys y rheiny yng Nghymru, yn trefnu pob math o ddigwyddiadau ar hyd y flwyddyn i hyrwyddo ac i dynnu sylw at wirfoddoli, a hefyd i wobrwyo a chydnabod gwerth a phwysigrwydd gwirfoddoli.**

## Beth yw gwirfoddoli?

Gwirfoddoli yw rhoi eich amser a'ch egni am ddim, heb boeni am elw ariannol.

Defnyddir y gair gwirfoddoli am amrywiaeth o bethau fel gwaith elusen, cymdogaeth dda, dinasyddiaeth, gwasanaeth cyhoeddus, gweithredu/cymryd rhan yn y gymuned.

## Pam gwirfoddoli?

Mae pobl yn gwirfoddoli ar wahanol adegau yn eu bywydau am wahanol resymau:

- efallai bod arnoch eisiau rhoi rhywbeth yn ôl i'ch cymuned leol neu grŵp arbennig sydd wedi'ch helpu ar adeg anodd yn eich bywyd;
- efallai eich bod yn teimlo'n unig a bod arnoch eisiau cwrdd â ffrindiau newydd;
- efallai eich bod yn ddi-waith/yn edrych am yrfa newydd/wedi cael eich diswyddo;
- efallai bod arnoch eisiau dysgu sgiliau newydd a chadw eich hun yn brysur;
- efallai bod gennych brofiadau a sgiliau yr hoffech eu trosglwyddo i eraill.

Mae'n hyblyg – chi sy'n penderfynu faint rydych eisiau ei wneud a phryd, gan ystyried yr ymrwymiadau eraill sydd gennych yn eich bywyd.

Er na fyddwch yn cael eich talu, cewch eich treuliau ac mae llawer o fanteision e.e.

- magu hyder a hunan-barch
- cwrdd â phobl mewn amgylchiadau tebyg
- dysgu sgiliau y gellir eu trosglwyddo
- rhoi cynnig ar brofiadau newydd
- helpu eraill yn ogystal â chi eich hun
- cael llawer o hwyl!
- creu argraff dda ar CV - mae cyflogwyr yn ystyried profiad gwirfoddol yn ffafriol.

## A alla i wneud gwahaniaeth?

Gallwch. Oni bai am wirfoddolwyr byddem yn byw mewn cymdeithas wahanol iawn:

- Fyddai dim gemau rygbi, digwyddiadau chwaraeon nac athletau, na rasio modur Fformiwla Un, na Gemau Olympaidd, heb gyfraniad hyfforddwyr, trefnwyr a marsialyddion gwirfoddol.

- Fyddai dim digwyddiadau cerddoriaeth, cyngherddau pop, gwyliau, Eisteddfodau Cenedlaethol neu'r Urdd heb wirfoddolwyr i godi arian a threfnu.
- Byddai llai o ymchwil neu gyngor a chymorth meddygol i bobl â phroblemau penodol.
- Byddai pobl yn marw heb y Samariaid, gwasanaeth y bad achub, timau achub mynydd, y Groes Goch Brydeinig ac Urdd Sant Ioan.
- Fyddai dim caffis, trolïau llyfrgell, na gwasanaeth radio ysbyty mewn ysbytai, na neb i helpu cleifion sy'n dod i'r ysbyty neu'n gadael yr ysbyty.
- Byddai'r system cyfiawnder troseddol yn chwalu heb ynadon lleyg, gwirfoddolwyr cymorth tystion a chefnogi dioddefwyr.
- Byddai llawer o'r dirwedd, bywyd gwyllt ac ardaloedd o harddwch naturiol yn cael eu hesgeuluso.
- Byddai llawer o bobl hŷn ac anabl yn unig.

## Beth alla i ei wneud?

Mae cyfleoedd i wirfoddoli mewn amrywiaeth eang o safleoedd, er enghraifft, yn yr awyr agored, mewn canolfannau cymunedol neu gartrefi gofal, swyddfeydd neu eich cartref eich hun. Gallwch gymryd rhan mewn llawer o wahanol weithgareddau fel codi arian, chwaraeon, cyfeilio, gwaith gweinyddol, neu gymorth a chefnogaeth ymarferol i blant, pobl ifanc neu bobl hŷn.

## Sut ydw i'n mynd ati?

- **Chwilio am gyfleoedd** gwirfoddoli ar y wefan hon i ddarganfod beth sydd ar gael yn eich ardal chi. Drwy gofrestru eich diddordeb ar-lein, bydd manylion pellach yn cael eu hanfon atoch.
- Cysylltu â'ch **canolfan wirfoddoli** leol am ragor o gymorth a chyngor. Mae **canolfan wirfoddoli** ar gael ym mhob ardal awdurdod lleol.